Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

# Deall y Data canlyniadau Cyfiawnder ar wefan police.uk

**Deall y Data canlyniadau Cyfiawnder ar wefan police.uk**

## Rhagymadrodd

Ers 31 Mai 2012, mae'r Swyddfa Gartref, Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cyhoeddi data am ganlyniadau cyfiawnder ar wefan police.uk[1] (www.police.uk/), sy'n dangos beth ddigwyddodd nesaf ar ôl i'r troseddau a ddangoswyd ar y wefan gael eu cyflawni. Mae'r wybodaeth hon yn caniatáu i gysylltiadau gael eu gwneud rhwng troseddau unigol a'u canlyniadau dilynol yng Nghymru a Lloegr.

Prif ddiben cyhoeddi'r data hwn yw cynyddu tryloywder a chynorthwyo'r cyhoedd i ddeall beth ddigwyddodd wedi i droseddau gael eu cyflawni yn eu hardal leol. Fodd bynnag, er bod data canlyniadau ar police.uk yn cael ei gyflwyno yn erbyn strydoedd unigol, pan y'i cyfanredir mae'r data a gyhoeddir yn gorgyffwrdd â chyhoeddiadau ystadegol sy'n bodoli o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref.

Mae'r hysbysiad ystadegol arbennig hwn wedi ei lunio i egluro:

a) pa ddata canlyniadau sydd wedi ei ryddhau ar wefan police.uk
b) sut mae'r data hwn wedi ei gasglu a chryfderau a chyfyngiadau'r broses hon
c) y cysylltiadau rhwng y data hwn ac ystadegau eraill a gyhoeddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

## Pa ddata canlyniadau sydd wedi ei ryddhau ar wefan police.uk?

Mae'r data canlyniadau yn caniatáu i ddefnyddwyr weld, ar gyfer troseddau unigol, y camau a gymerwyd gan yr heddlu yn dilyn riportio'r drosedd ac, os cafodd yr un a ddrwgdybir ei gyhuddo mewn cysylltiad â'r drosedd honno, y canlyniad y daethpwyd iddo yn yr achos llys dilynol.

Fel rhan o'r datganiad hwn, cyflwynir data am y camau a gymerwyd gan yr heddlu ar gyfer y troseddau hynny a gofnodwyd ers Ebrill 2012. Fodd bynnag, gall data ychwanegol am y canlyniadau y daethpwyd iddynt yn y llys fod ar gael ar gyfer rhai troseddau a gofnodwyd ers Ionawr 2012, os:

a) yw'r un a ddrwgdybir wedi ei adnabod a'i gyhuddo mewn perthynas â'r drosedd honno, ac os
b) oes gwrandawiad llys wedi ei gynnal

Pan fod data canlyniadau yr heddlu neu'r llys ar gael am drosedd, dangosir un neu nifer o'r canlyniadau a roddir drosodd.

[1] Nid yw'n cynnwys data canlyniadau Cyfiawnder gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain

**Canlyniadau cyfiawnder a ddangosir ar wefan police.uk**

| **Canlyniad a ddangosir** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Dan ymchwiliad | Mae'r drosedd hon yn cael ei hymchwilio gan yr heddlu ar hyn o bryd |
| Cyhuddwyd yr un a ddrwgdybir | Cyhuddwyd un a ddrwgdybir ac anfonwyd yr achos i'r llys |
| Dim gweithredu pellach ar hyn o bryd | Nid oes digon o dystiolaeth i ddwyn unrhyw un gerbron llys ar hyn o bryd. Gellir ailagor yr ymchwiliad os daw rhagor o wybodaeth ar gael |
| Methu erlyn un a ddrwgdybir | Gallai sawl rheswm fod am hyn e.e. mae'r erlyniad yn ystyried ei bod yn annhebygol y caiff yr un a ddrwgdybir ei euogfarnu gan nad oes digon o dystiolaeth |
| Un a ddrwgdybir yn cael ei gyhuddo gyda'r drosedd hon a throseddau eraill | Cyfaddefodd yr un a ddrwgdybir i'r drosedd hon a throseddau eraill ac fe'u hystyrir gyda'i gilydd |
| Rhoddir hysbysiad cosb i'r troseddwr | Mae'r heddlu wedi rhoi hysbysiad cosb benodedig i'r troseddwr |
| Rhoddwyd rhybudd i'r troseddwr | Rhybuddiwyd y troseddwr ynglŷn â'i ymddygiad, a gellid mynd ag ef i'r llys pe bai'n cyflawni trosedd arall |
| Datrysiad lleol | Rhoddwyd y troseddwr mewn cysylltiad â'r rheiny yr effeithiwyd arnynt er mwyn cywiro'r niwed a wnaed a dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen |
| Achos llys yn methu mynd rhagddo | Gallai hyn fod am nifer o resymau e.e. yr achos yn cael ei wrthod oherwydd dim digon o dystiolaeth neu fod tyst yn absennol |
| Anfonwyd diffynnydd i Lys y Goron | Mae achos a wrandawyd mewn llys ynadon wedi ei drosglwyddo i Lys y Goron ar gyfer treial neu ddedfrydu |
| Disgwyl canlyniad llys | Mae'r un a ddrwgdybir nawr yn mynd drwy'r Llys Ynadon neu Llys y Goron |
| Cafwyd y diffynnydd yn ddieuog | Cafwyd y diffynnydd yn ddieuog o'r drosedd gan ynadon neu farnwr a rheithgor yn Llys y Goron |
| Rhoddwyd rhyddhad diamod i'r troseddwr | Canfu'r llys y troseddwr yn euog ond ni chymerodd unrhyw gamau pellach, fel arfer gan mai mân drosedd ydoedd |
| Rhoddwyd rhyddhad amodol i'r troseddwr | Canfuwyd y troseddwr yn euog ond fe'i rhyddhawyd gan y llys, a gallai gael ei gosbi am y drosedd hon os bydd yn torri'r gyfraith eto |
| Gorchmynnwyd y troseddwr i dalu iawndal | Canfu'r llys y troseddwr yn euog ac fe'i gorchmynnwyd i dalu iawndal i'r dioddefwr neu'r llys |
| Dirwywyd y troseddwr | Canfu'r llys y troseddwr yn euog ac fe'i dirwywyd; gallai hefyd orfod talu iawndal i'r dioddefwr |
| Amddifadu'r troseddwr o eiddo | Canfu'r llys y troseddwr yn euog a gorchmynnodd i'w eiddo gael ei atafaelu |
| Rhoddwyd dedfryd gymunedol i'r troseddwr | Rhoddodd y llys ddedfryd yn y gymuned i'r troseddwr a allai gynnwys gwaith di-dâl, neu gyrffiw a gwisgo tag |
| Rhoddwyd dedfryd o garchar gohiriedig i'r troseddwr | Gallai'r troseddwr gael ei anfon i'r carchar os bydd yn cyflawni trosedd arall |
| Anfonwyd y troseddwr i'r carchar | Anfonwyd y troseddwr i'r carchar ar unwaith |
| Ymdriniwyd â'r troseddwr mewn ffordd arall | Ymdriniodd y llys â'r troseddwr mewn ffordd arall e.e. gorchymyn ysbyty |

**Sut cafodd y data ei gasglu?**

Casglwyd data ynglŷn â gweithredu'r heddlu yn uniongyrchol o'r systemau cofnodi troseddau a ddefnyddir ym mhob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Yr un systemau yw'r rhain â'r rhai a ddefnyddir i ddangos y pwyntiau data troseddau unigol ar wefan police.uk ac, o ganlyniad, mae gwybodaeth am y prif gamau a gymerwyd gan yr heddlu ar gael ar gyfer yr holl droseddau a gofnodwyd ers Ebrill 2012.

Casglwyd data ynglŷn â chanlyniadau y daethpwyd iddynt yn y llys o echdyniad o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) a ddelir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fodd bynnag, nid yw'r PNC yn cofnodi lleoliad troseddau unigol yn yr un manylder ag a gyflwynir ar wefan police.uk. Bu felly'n angenrheidiol i gyfateb y data canlyniadau a ddelir ar y PNC gyda'r wybodaeth am droseddau unigol a ddelir ar system gofnodi troseddau pob heddlu unigol.

Mae'r algorithmau cyfatebol yn ceisio cysylltu'r data ynghyd drwy ddefnyddio nifer o newidynnau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

| **Newidyn** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Rhif cyfeirnod trosedd | Rhif unigryw sydd wedi ei glustnodi i drosedd/dramgwydd mewn ardal heddlu lleol |
| Rhif gwŷs arestiad | Rhif cyfeirnod unigryw a roddir i bob "achos" (manylion arestiad/gwŷs) newydd a gofnodir yn y system TG. Caiff y rhif cyfeirnod hwn ei gynhyrchu gan system PHEONIX neu gan system gyfrifiadurol heddlu lleol (cyn ei gofnodi ar system PHEONIX) |
| Rhif system y ddalfa | Defnyddir gan heddlu pan fyddant yn cadw troseddwr am drosedd a riportiwyd |
| Cod trosedd y Swyddfa Gartref | Cod trosedd pum digid a ddefnyddir gan y Swyddfa Gartref a'r System Cyfiawnder Troseddol |
| Categori trosedd | Grwpio troseddau lefel uchel. Mae pob categori yn cynnwys troseddau grŵp a ddefnyddir gan heddluoedd |
| Dyddiad y drosedd | Dyddiad y cyflawnwyd y drosedd |
| Cod post y drosedd | Cod post lle cyflawnwyd y drosedd |

Mae'r holl newidynnau hyn ar gael o fewn y PNC ond, oherwydd y gwahanol systemau cofnodi troseddau a'r gwahanol brosesau busnes a ddefnyddir gan wahanol heddluoedd, nid yw pob newidyn ar gael ar gyfer pob llu. Felly mae'r broses cyfateb yn ceisio uno'r data ynghyd gan ddefnyddio nifer o wahanol gyfuniadau o'r newidynnau cysylltiedig hyn. Rhestrir y cyfuniadau hyn yn llawn yn **Atodiad A**.

Nid yw'n bosibl cyfateb pob cofnod yn llwyddiannus gan ddefnyddio'r broses hon ac felly ni fydd rhai canlyniadau llys y daethpwyd iddynt ar gael ar wefan police.uk Mae hyn i'w ddisgwyl o gofio na chynlluniwyd y systemau TG a ddefnyddir yn y broses hon gyda'r bwriad hwn ac nid oes felly un dynodwr cyffredin ar gael i gyfateb y data arno.

Mae ffeil CSV gefnogol (Cyfradd cyfateb yn ôl Ardal Heddlu) yn dangos canran y troseddau a gofnodwyd ers Ionawr 2012 - y mae un a ddrwgdybir wedi ei gyhuddo amdanynt - sydd wedi eu cyfateb yn llwyddiannus yn erbyn y cofnodion llys a ddelir ar y PNC ar gael yn:
www.justice.gov.uk/statistics/ad-hoc

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i ddatblygu a gwella'r broses gyfatebu gyda heddluoedd yn dilyn rhyddhau y data canlyniadau cyntaf, ond dylai defnyddwyr fod yn ofalus wrth asesu'r data mewn ardaloedd lle mae gan heddluoedd gyfraddau cyfateb arbennig o isel.

Yn ogystal, dylai defnyddwyr osgoi ddefnyddio cyfanred y data canlyniadau llys a ddangosir ar wefan police.uk fel mesur ar gyfer cyfanswm nifer y canlyniadau y daethpwyd iddynt mewn unrhyw un mis penodol. Ni fydd pob canlyniad llys ar gael ar y wefan oherwydd y nam yn y broses cyfateb a amlinellir uchod, ac ni chaiff unrhyw ganlyniadau y daethpwyd iddynt yn ystod y mis ar gyfer troseddau a riportiwyd wrth yr heddlu cyn Ionawr 2012 eu dangos o gwbl. Yn yr ychydig fisoedd cyntaf yn dilyn rhyddhau data canlyniadau ar police.uk bydd hyn yn effeithio ar nifer o achosion gan fod y ffigurau diweddaraf yn dangos ei bod yn cymryd cyfartaledd o 155 diwrnod rhwng y drosedd yn cael ei chyflawni a'r achos llys dilynol yn cael ei gwblhau.

## Sut mae'r data hwn yn wahanol i ystadegau eraill a gyhoeddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi ystadegau chwarterol yn y bwletin Ystadegau Cyfiawnder - www.justice.gov.uk/statistics/criminal-justice/criminal-justice-statistics.

Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys data am ganlyniadau megis Hysbysiadau Cosb ar gyfer Anrhefn, rhybuddion, a rhybuddion canabis yn ychwanegol at y data am y canlyniadau y daethpwyd iddynt yn y llys. Mae'r prif ddata yn y cyflwyniad hwn yn cynnwys yr holl achosion diannod y gwrandawyd arnynt yn y llys ac felly ni fyddant yn cyfateb i'r ffigurau a gyflwynir ar police.uk sydd ond yn rhoi troseddau hysbysadwy. Y gymhariaeth agosaf rhwng y data a gyflwynir ar police.uk a'r bwletin hwn yw Tablau 6.3-6.6 ym Mhennod 6 sy'n cyflwyno gwybodaeth am y Troseddau a Ddygwyd Gerbron Llys.

Mae'r ystadegau diweddaraf o'r gyfres hon ar gyfer pob ardal heddlu (Nifer euogfarnau yn ôl Ardal Heddlu) ar gael yn:
www.justice.gov.uk/statistics/ad-hoc

Mae'r prif wahaniaethau rhwng yr ystadegau hyn a'r data canlyniadau a gynhwysir ar wefan police.uk fel a ganlyn:

| **Canlyniadau a ddangosir ar wefan police.uk** | **Canlyniadau a gynhwysir yn yr ystadegau uchod** |
|---|---|
| • Ar gyfer troseddau a gofnodwyd ers 1 Ionawr 2012 | • Ar gyfer pob trosedd a gofnodwyd |
| • Dim ond pan fydd data yn cyfatebu rhwng systemau cofnodi troseddau a'r PNC | • Dim data wedi ei eithrio oherwydd cyfatebu |
| • Ar gyfer canlyniadau y daethpwyd iddynt erbyn diwedd y mis blaenorol | • Ar gyfer canlyniadau y daethpwyd iddynt erbyn diwedd y mis blaenorol ond un |
| • Cynnwys gwybodaeth ychwanegol am weithredu'r heddlu, megis cyhuddo rhai a ddrwgdybir a datrysiadau lleol | • Nid yw'n cynnwys y wybodaeth ychwanegol hon |

## Ffeil CSV

Gellir cael ffeil CSV gefnogol gwybodaeth data'r heddlu o wefan police.uk ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder:
[www.justice.gov.uk/statistics/ad-hoc](http://www.justice.gov.uk/statistics/ad-hoc)

## Atodiad A: Cyfuniadau o newidynnau a ddefnyddir yn y broses cyfatebu

| Cam cyfatebu | Rhif gwŷs arestiad | Rhif cyfeirnod trosedd | Rhif system y ddalfa | Cod trosedd y Swyddfa Gartref | Categori trosedd y Swyddfa Gartref | Dyddiad y drosedd | Cod post y drosedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | √ | √ | | √ | | √ | √ |
| 2 | √ | | √ | √ | | √ | √ |
| 3 | √ | √ | | | √ | √ | √ |
| 4 | √ | | √ | | √ | √ | √ |
| 5 | √ | √ | | √ | | | √ |
| 6 | √ | | √ | √ | | | √ |
| 7 | √ | √ | | | | √ | √ |
| 8 | √ | | √ | | | √ | √ |
| 9 | √ | √ | | | √ | | √ |
| 10 | √ | | √ | | √ | | √ |
| 11 | | √ | | √ | | √ | √ |
| 12 | | | √ | √ | | √ | √ |
| 13 | | √ | | | √ | √ | √ |
| 14 | | | √ | | √ | √ | √ |
| 15 | √ | √ | | √ | | √ | |
| 16 | √ | | √ | √ | | √ | |
| 17 | √ | √ | | | √ | √ | |
| 18 | √ | | √ | | √ | √ | |
| 19 | √ | | | √ | | √ | √ |
| 20 | √ | | | | √ | √ | √ |
| 21 | √ | √ | | | | | √ |
| 22 | | √ | | √ | | | √ |
| 23 | | | √ | √ | | | √ |
| 24 | | √ | | | | √ | √ |
| 25 | | | √ | | | √ | √ |
| 26 | | √ | | | √ | | √ |
| 27 | | | √ | | √ | | √ |
| 28 | √ | √ | | √ | | | |
| 29 | √ | √ | | | | √ | |
| 30 | | √ | | √ | | √ | |
| 31 | | | √ | √ | | √ | |
| 32 | √ | √ | | | √ | | |
| 33 | | √ | | | | | √ |
| 34 | | √ | | | √ | √ | |
| 35 | | | √ | | √ | √ | |
| 36 | √ | | | √ | | √ | |